# PWYLLGOR SAFONAU

# DYDD MERCHER, 26 HYDREF 2022

**PRESENNOL** Cynghorydd M. Dodds (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
D. Evans P. Rogers R. James

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
C. Davies J. James F. Phillips B.W. Jones
G.B. Thomas

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau DemocrataiddM. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Chamber - County Hall, Carmarthen. SA31 1JP and remotely - 2.30 - 4.30 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

## 3. GWRANDAWIAD TERFYNOL MEWN PERTHYNAS AG ADRODDIAD A GYHOEDDWYD GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU YNGHYLCH Y CYNGHORYDD TREF LOUISE WRIDE.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Tref Louise Wride a Ms Sinead Cook a Ms Sarah Jones o Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r cyfarfod.

-

Atgoffwyd y Pwyllgor, yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ar 25 Awst, fod ystyriaeth gychwynnol wedi'i rhoi i'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn manylu ar ganlyniadau eu hymchwiliad i honiadau bod y Cynghorydd Tref Louise Wride wedi torri Côd Ymddygiad yr Aelodau. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod yr adroddiad wedi datgelu tystiolaeth oedd yn awgrymu fod y Côd Ymddygiad wedi'i dorri. Aeth yr achos ymlaen wedyn i'r cam nesaf a gwahoddwyd y Cynghorydd Wride i gyflwyno sylwadau ynghylch cynnydd pellach yr achos.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022, cynhaliwyd Adolygiad Rhagwrandawiad, a'r prif nod oedd ystyried cais y Cynghorydd Wride y dylid clywed y gwrandawiad terfynol yn breifat. Penderfynodd y Pwyllgor fod y gwrandawiad terfynol heddiw yn cael ei gynnal yn gyhoeddus ond byddai'r Pwyllgor yn dechrau sesiwn breifat pe bai'n cael ei ystyried er budd y cyhoedd ar unrhyw adeg.

Yn y gwrandawiad olaf heddiw roedd gofyn i'r Pwyllgor ystyried yr achos yn llawn a phenderfynu a oedd ymddygiad y Cynghorydd Wride yn torri'r Côd a fabwysiadwyd gan Gyngor Tref Llanymddyfri fel yr awgrymwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon.

Roedd angen i'r Pwyllgor benderfynu a wnaeth ymddygiad y Cynghorydd Wride ddwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd Tref a/neu ei Chyngor. Yr ymddygiad dan sylw yw collfarn y Cynghorydd Wride am drosedd, fel y nodir yn adroddiad yr Ombwdsmon.

Pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu bod ymddygiad y Cynghorydd Wride wedi torri'r Côd, byddai angen wedyn ystyried pa gosb (os o gwbl) yr oedd am ei rhoi. Yr uchafswm gosb y gellid ei rhoi oedd ei hatal o'r swydd am hyd at 6 mis. Pe bai'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad bod y Cynghorydd Wride wedi torri'r côd ac yn rhoi cosb iddi, byddai gan y Cynghorydd Wride hawl i apelio i Banel Dyfarnu Cymru.

Gwnaeth Ms Cook o Swyddfa'r Ombwdsmon grynhoi canfyddiadau'r ymchwiliad a gynhaliwyd a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor ofyn cwestiynau/gofyn am eglurhad.

Cafodd y Cynghorydd Wride wahoddiad i annerch y Pwyllgor yn ei hamddiffyniad o'r canfyddiadau a rhoddwyd cyfle i'r Pwyllgor ofyn cwestiynau/gofyn am eglurhad.

Ar y pwynt hwn yn yr achos cafodd ei gynnig a'i eilio, yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod am y rheswm, pe byddent yn bresennol, ei bod yn debygol y byddai datgeliad iddynt o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sef gwybodaeth o ran y gellid honni braint gyfreithiol broffesiynol mewn perthynas â hi mewn achosion llys cyfreithiol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn i'r Cyngor ystyried gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Gwnaeth cynrychiolwyr Swyddfa'r Ombwdsmon a'r Cynghorydd Wride adael y cyfarfod a chafodd gwe-ddarllediad y cyfarfod ei oedi. Ar ôl i'r trafodaethau hynny ddod i ben, ail-ymunodd cynrychiolwyr yr Ombwdsmon a'r Cynghorydd Wride yn y cyfarfod ac ailddechreuwyd y gwe-ddarllediad.

**Penderfyniad o ran torri'r côd**
Yn seiliedig ar y ffeithiau diamheuol yn yr achos hwn, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd o'r farn bod ymddygiad y Cynghorydd Wride wedi dwyn anfri ar ei swydd fel Cynghorydd a'i Chyngor ac felly roedd yn fodlon bod y Cynghorydd Wride wedi torri Paragraff 6(1)(a) o'r Côd Ymddygiad. Roedd hyn yn sylweddol o gofio bod y Cynghorydd Wride, ar adeg y toriad, wedi dal swydd uwch yn y Cyngor fel Maer a bod ei hymddygiad wedi arwain at gollfarn droseddol.

Ar yr adeg hon yn yr achos, er mwyn i'r Pwyllgor dderbyn gwybodaeth bersonol gyfrinachol gan y Cynghorydd Wride i'w alluogi i benderfynu ar ba gosb, os o gwbl, y dylid ei rhoi,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn i'r Cyngor ystyried gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Felly, cafodd gwe-ddarllediad y cyfarfod ei oedi wrth i'r wybodaeth bersonol gyfrinachol honno gael ei darparu i'r pwyllgor

Aeth y pwyllgor i ystyried pa gosb, os o gwbl, y byddai'n rhoi a gadawodd y Cynghorydd Wride a chynrychiolydd yr Ombwdsmon y cyfarfod unwaith eto.

Ar ôl gwneud ei benderfyniad daeth y sesiwn breifat i ben ac ail-ymunodd cynrychiolwyr yr Ombwdsmon a'r Cynghorydd Wride â'r cyfarfod ac ailddechreuwyd y gwe-ddarllediad fel bod modd rhoi'r penderfyniad ynghylch cosb.

**Penderfyniad ynghylch cosb**
Wrth ystyried y gosb i'w rhoi i'r Cynghorydd Wride am iddi dorri'r Côd, roedd y Pwyllgor wedi ystyried y sylwadau a wnaed ar ran yr Ombwdsmon a'r rhai a wnaed gan y Cynghorydd Wride.

Roedd y Pwyllgor yn dilyn y broses pum cam a nodwyd mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan Banel Dyfarnu Cymru.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a sylwadau a roddwyd gerbron,

**PENDERFYNWYD y byddai'n briodol ac yn gymesur i atal y Cynghorydd Wride am gyfnod o 2 fis ac y dylai ymgymryd â hyfforddiant Côd Ymddygiad o fewn y chwe mis nesaf.**

## 4. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys i'w hystyried.

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CHAIR** | **DATE** |